

eiriolaeth

Y Rhaglen Edau Euraid

Galluogi barn, dymuniadau a theimladau

 **age Cymru**

Creu Cymru oed gyfeillgar

Rôl Unigolyn Priodol

Rhan 10 o'r Cod Ymarfer (Eiriolaeth)



Mawrth 2020

Cyflwyniad

Mae pwysigrwydd rôl yr unigolyn priodol wedi ei nodi ym mharagraff 47 Rhan 10 y Cod Ymddygiad (Eiriolaeth)¹ ("y Cod") diwygiedig dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf"). Mae'r rôl wedi ei nodi ym Mhennod 13 y Cod, "Pryd fo unigolyn yn briodol neu'n amhriodol i weithio fel eiriolwr?"

Mae'r adnodd hwn yn adolygu'r hyn y mae'r Cod yn ei ddatgan ynghylch rôl yr unigolyn priodol² ac yn tynnu sylw at rai pwyntiau a all fod yn ddefnyddiol i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, comisiynwyr, darparwyr, eiriolwyr, gofalwyr a dinasyddion eu hystyried.

Asesu'r angen ar gyfer eiriolaeth broffesiynol annibynnol

Mae Pennod 8 y Cod yn nodi bod eiriolaeth broffesiynol annibynnol dan y Ddeddf "yn benodol i gefnogi unigolyn mewn perthynas â'i anghenion gofal a/neu gefnogaeth. Cyfeirir at Eiriolwr sy'n ymgymryd â'r math hwn o eiriolaeth fel Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol (IPA)"³.

Mae Paragraff 47 y Cod yn egluro sut mae angen i awdurdodau lleol ymgymryd â'r asesiad o angen am eiriolaeth broffesiynol annibynnol ar gyfer oedolion dan y Ddeddf. Mae'n nodi:

Mae'n **rhaid** i awdurdodau lleol drefnu IPA ar gyfer person nad yw'n gallu goresgyn y rhwystr(au) i **gymryd rhan yn llawn** yn y **prosesau asesu, cynllunio gofal a chymorth, adolygu a diogelu** gyda chymorth gan unigolyn priodol, ond nad oes unigolyn priodol ar gael.

Mae Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraid (GTAP)⁴ Age Cymru wedi creu siart llif⁵ sy'n nodi proses gwneud penderfyniadau ar gyfer pennu'r angen am eiriolaeth broffesiynol annibynnol ar gyfer oedolion dan y Ddeddf.

Ar ôl asesu a oes modd goresgyn rhwystrau person drwy addasiadau rhesymol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac egluro a yw person yn gymwys am Eiriolwr Galluoedd Meddyliol Annibynnol (IMCA), mae'r broses yn galw am weithiwr gofal cymdeithasol proffesiynol, "Mewn perthynas â'r person, (i) bennu pa ffurf o eiriolaeth sydd fwyaf addas, gan gynnwys unigolyn priodol, eiriolaeth ffurfiol⁶ ayyb."

Os oes unigolyn priodol ar gael, dylai'r gweithiwr gofal cymdeithasol proffesiynol gadarnhau'r trefniadau â nhw. Os nad oes unigolyn priodol ar gael nac eiriolaeth addas arall, dylai'r person wedyn gael eu cyfeirio at y gwasanaeth sy'n darparu eiriolaeth broffesiynol annibynnol dan y Ddeddf.



Rôl yr unigolyn priodol

Mae llyfryn⁷ y Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraid (GTAP) ynghylch eiriolaeth broffesiynol annibynnol o dan y Ddeddf yn nodi:

Mae rôl yr "unigolyn priodol" yn allweddol i ddeall pa fath o eiriolaeth sydd ei angen mewn achosion unigol. Mae unigolyn priodol yn rhywun sydd yn **hwyluso** cyfraniad person yn y prosesau asesu, cynllunio gofal a chefnogaeth, adolygu a diogelu, ond ni all fod yn rhywun:

- nad yw'r person eisiau chefnogaeth ganddynt
- rhywun sy'n annhebygol o allu, neu fod ar gael i, gynorthwyo'r person yn ddigonol, neu
- sy'n gysylltiedig ag ymchwiliad diogelu.

Gall yr unigolyn priodol fod yn aelod o'r teulu, ffrind, gofalwr, neu unrhyw un sy'n darparu ffurf o eiriolaeth annibynnol nad yw'n broffesiynol, cyn belled ag y bont yn bodloni'r meini prawf uchod.

Mae'n hanfodol bod ganddynt ddealltwriaeth ddigonol o brosesau awdurdod lleol er mwyn medru cefnogi cyfraniad y person wrth bennu eu canlyniadau llesiant a derbyn y gofal a'r gefnogaeth y maent eu hangen.

Mae Paragraff 70 y Cod yn nodi:

Dylid parchu dymuniadau unigolyn i beidio â chael chefnogaeth gan ffrindiau neu deulu, lle bo gan yr unigolyn y gallu i roi caniatâd, mae'n rhaid dilyn eu dymuniadau. Efallai na fydd unigolyn yn dymuno cael chefnogaeth gan berthynas, er enghraifft, oherwydd bod gwrthdaro buddiannau wrth symud ymlaen.

Mae'r astudiaeth achos ar ddiwedd y ddogfen hon yn cynnig enghraifft o sut all gwrthdaro buddiannau godi.

Gofynion a disgwyliadau o unigolion priodol

Disgrifir gofynion a disgwyliadau'r unigolyn priodol ym mharagraff 69 y Cod. Mae'r pwysleisio isod at ddiben yr adnodd hwn.

Mae disgwyl i unigolion priodol gefnogi, cynrychioli a hwyluso cyfranogiad yr unigolyn wrth sicrhau eu canlyniadau llesiant. Er y gall hyn fod yn aelod o'r teulu, ffrind neu rywun yn y rhwydwaith cefnogi ehangach, **mae'n debygol na fydd ymgymryd â'r rôl hon yn hawdd i rai pobl.** Er enghraifft, aelod o'r teulu nad ydynt mewn cysylltiad rheolaidd â'r person; priod sydd yn cael trafferth deall prosesau'r awdurdod lleol; ffrind sydd yn mynegi ei farn gref ei hun cyn gwybod beth yw barn yr unigolyn dan sylw. **Nid yw adnabod y person yn dda yn ddigon.** Rôl yr unigolyn priodol yw cefnogi ymgysylltiad a chyfraniad llawn yr unigolyn wrth bennu eu canlyniadau llesiant.

Gellid dod at y casgliad bod gofynion a disgwyliadau'r unigolyn priodol yn heriol, i'r graddau ei fod "yn debygol na fydd ymgymryd â'r rôl hon yn hawdd i rai pobl." Mae angen iddynt ddeall ac ymrwymo eu hunain i gyfrannu'n llawn wrth gynorthwyo cyfraniad y person yn y prosesau asesu, cynllunio gofal a chefnogaeth, adolygu a diogelu.

Mae "cefnogi, cynrychioli a hwyluso" "ymgysylltiad a chyfranogiad llawn" y person wrth "bennu" a "sicrhau" eu canlyniadau llesiant yn gofyn am ddealltwriaeth sylfaenol o'r hyn y mae 'llesiant' yn ei olygu yng nghydestun y Ddeddf, a beth yw 'canlyniadau llesiant personol.

Mae hefyd yn gofyn am eglurder bod y gefnogaeth a'r gynrychiolaeth sy'n cael ei ddarparu ar gyfer y person, ac nid partion eraill sydd â diddordeb, fel aelodau o'r teulu. Gall hyn ofyn am lefel o wrthrychedd nad oes modd i bawb ei gyflwyno i'r rôl.

O ystyried hyn, mae'n rhaid i'r gweithiwr gofal cymdeithasol proffesiynol – mewn partneriaeth â'r person – benderfynu pa un a yw'n briodol i rywun ymddwyn fel unigolyn priodol, gan gofio nad yw adnabod y person yn dda yn ddigon, a bod y rheiny sy'n cael eu heithrio o'r rôl yn benodol yn cynnwys a) pobl nad yw'r person eisïau iddynt eu cefnogi; b) pobl nad ydynt yn deall prosesau a chysyniadau awdurdod lleol fel canlyniadau llesiant personol; a c) pobl nad ydynt mewn cysylltiad rheolaidd â'r person.

Gall rhai pobl, gan gynnwys staff awdurdod lleol sy'n gweithio mewn meysydd ar wahân i wasanaethau cymdeithasol, fod â gwybodaeth nad yw'n ddigonol ar y systemau a phrosesau penodol i allu cynnig cefnogaeth ddigonol fel unigolyn priodol. I ymdrin â hyn, dylid ystyried sicrhau bod unrhyw un a all ymddwyn fel unigolyn priodol yn derbyn y wybodaeth a dealltwriaeth berthnasol ynghylch y rôl hon.



Astudiaeth achos

Cafodd gwraig hŷn ei derbyn i'r ysbyty wedi iddi gwmpo. Cafodd ei chyfeirio ar gyfer eiriolaeth broffesiynol annibynnol oherwydd, er bod ei mab wedi dweud ei fod eisïau iddi fynd i gartref gofal, roedd hi wedi dweud yn gyntaf ei bod eisïau mynd yn ôl adref.

Ymwelodd IPA â hi sawl gwaith i bennu beth oedd ei gwir ddymuniadau. Yn ystod yr ymweliadau hyn, roedd yn amlwg ei bod hi eisïau mynd yn ôl adref, er bod ganddi bryderon ynghylch unigrwydd, ac mae hyn wedi creu gwrthdaro o ran buddiant gyda dymuniadau ei mab iddi fynd i gartref gofal.

Yn ystod ymweliad â'r cleient ychydig wythnosau wedyn, rhoddodd staff y ward wybod i'r IPA bod gweithiwr cymdeithasol yn cael cyfarfod gyda theulu'r person y bore hwnnw i bennu a allai fod yn gymwys ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus (CHC). Pan ofynnodd yr IPA i'r gweithiwr cymdeithasol pam na chafodd wybod, dywedodd nad oedd y person angen eiriolaeth mwyach oherwydd bod ei mab yn gallu ymddwyn fel ei hunigolyn priodol. Pan eglurodd yr IPA am y gwrthdaro buddiannau rhwng dymuniadau'r mab iddi fynd i gartref gofal, a dymuniadau'r fam i fynd yn ôl adref, cytunodd y gweithiwr cymdeithasol y byddai'n briodol i'r IPA ymuno â'r cyfarfod.

Yn ystod y cyfarfod, roedd yr IPA yn cymryd seibiant o'r drafodaeth yn rheolaidd er mwyn ymgynghori â'i chleient er mwyn cadarnhau bod ei safbwyntiau presennol yn cyd-fynd â'r hyn yr oedd hi wedi ei ddweud yn flaenorol. Cytunwyd yn y pen draw – yn groes i ddewis y mab - ei fod yn rhy gynnar iddi symud i gartref gofal ar hyn o bryd, ac er mwyn cynnal ei llesiant, dylai fynd yn ôl adref gyda pheccyn gofal a chefnogaeth lawn ac y dylid monitro ei hiechyd a llesiant yn barhaus.



Nodiadau a chyfeiriadau

¹ <https://llyw.cymru/gwasanaethau-eirioli-cod-y-marfer>

² Noder bod rôl yr *unigolyn* priodol sydd wedi ei gyflwyno gan y Cod ar wahân ac yn wahanol i rôl yr *oedolion* priodol dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984.

³ Yn y Cod, pan fydd prif lythyren, mae 'IPA' neu 'Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol' yn cyfeirio'n benodol at rôl rhywun sydd wedi eu hyfforddi a'u talu i gynnis *gwasanaeth* 'eiriolaeth broffesiynol annibynnol' dan y Ddeddf (h.y. pan fydd prif lythyren, mae'n cyfeirio at y rôl, a phan na fydd prif lythyren, mae'n cyfeirio at y *gwasanaeth*).

⁴ <http://bit.ly/GTAPhome>

⁵ <http://bit.ly/IPAdeterminingneed>

⁶ Mae "Eiriolaeth Ffurfiol" yn cael ei ddisgrifio ym Mhennod 8 y Cod fel "rôl eiriolaeth y staff o fewn ieuchyd, gofal cymdeithasol a gosodiadau eraill lle mae gofyn am weithwyr proffesiynol fel rhan o'u rôl i ystyried dymuniadau a theimladau'r unigolyn ac i helpu i sicrhau eu bod yn cael sylw priodol".

⁷ <http://bit.ly/IPAbooklet>



Age Cymru, Llawr Gwaelod, Mariners House,
Trident Court, Heol East Moors, Caerdydd CF24 5TD

Ffôn: 029 2043 1555

E-bost: enquiries@agecymru.org.uk www.agecymru.org.uk

Mae Age Cymru yn elusen gofrestredig 1128436, cwmni cyfyngedig drwy warant ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Gweler uchod am ein swyddfa gofrestredig. ©Age Cymru 2020



Dilynwch ni ar:  facebook.com/agecymru

 twitter.com/agecymru